

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion o'r Is-Bwyllgor Rheoli Asedau'r Cyngor nos FAWRTH 27ain o Fehefin 2017 yn Y SWYDDFA – PARC MENAI

Ymddiheuriadau Cyng Menna Baines

Cod Ymddygiad Dim i'w ddatgan

Derbyn Cofnodion 29ain o Fawrth 2017
Derbynwyd fel cofnod cywir

Materion yn codi
Dim na fyddai ar yr agenda beth bynnag

Cytuno ar ac argymell i'r Is Bwyllgor Cyllid brosiectau 2017-18

- Cysgodfan Treborth (diweddariad) a chysgodfannau eraill

Cysgodfan Treborth bellach yn ei lle ond un wedi cwyno ei bod rhy bell yn ol o'r ffordd.

Cais Rhydygroes angen cytuno ar ei leoliad

Safle Goleufryn yn yr un modd angen cytundeb i'w leoli

Clerc i llythyru y tai cyfagos

- Safle bws Cae garnedd

Cyngor Gwynedd yn hapus i ni osod polyn Safle bws (tua £150 o gost)

Angen eto lythyr tai cyfagos

Clerc i llythyru y tai cyfagos

- Cynllun y Fynwent Newydd ag unrhyw waith ychwanegol

Cynllun wedi ei gwblhau ond heb ei dderbyn

Clerc i drefu

- Llwybrau cyhoeddus a thorri gwair yn gyffredin

Cyng H Griffiths yn adrodd iddo fod wedi torri 4 coeden oedd wedi cwmpo ar draws y llwybr ceffyl sy'n mynd i lawr i gyfeiriad Bangor o Penhower.

Disgwyl cadarnhad calendr toriadau gan Steffan Jones Cyngor Gwynedd yn dilyn ei gyfarfod

Trafodwyd yma nad yw ffordd Ty'n Clwt yn cael dim sylw ag wir angen sylw wrth ochr y ffordd a'r gor-dyfiant sy'n dod drosodd i'r ffordd

- Torri gwair ychwanegol

Nodyn uchod

- Mapiau (diweddariad)

Caniatad i osod rhain ar y We wedi ei roi. Disgwyl derbyn y mapiau ar gyfer yr Hysbysfyrddau

- Hysbysfyrddau

- Caniatad cynllunio Dosbarthwyd fapiau o'r lleoliadau a marciwyd y manau fyddai orau o ran lleoliad
- Gosod

- Cae Chwarae Caerhun Llanast ar y darn concrit wrth y cae Chwarae **Clerc i gysylltu a CCG**
- Bocsus Blodau Ymddengys ei bod yn llai lliwgar eleni. **Clerc i wneud ymholiad a Suzanna**
- Canolfan Penrhos Angen cymharu y brydles bresennol a'r un gynnigir Ymateb da wedi bod i'r cyfarfod Blynyddol.
- Holwyd am adnewyddu bocs halen yn Clwt Rhywiog Rallt Pentir am fod yn un presennol wedi ei ddifrodi